**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Chwefror 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Chwefror 2018** |

## PWNC

Eitem 6:CAMPWS DYSGU 3-19, Y BALA

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i:

i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn ar 31 Awst 2019 a Sefydlu'r Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg, statws cymunedol, ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2019.
ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig i (i) uchod yn unol a gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cabinet gytuno ar 24 Hydref 2017 i gynnal ymgynghoriad statudol yn unol a gofynion Adran 48 Deddf Safonau Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch y Berwyn ar sail model a ffafrir, sef cynnig i gau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol y Berwyn a sefydlu Campws Dysgu 3-19, cyfrwng Cymraeg, statws Cymunedol ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn weithredol o fis Medi 2019. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol gadarn drwy'r ymgynghoriad i'r cynnig o sefydlu Campws Dysgu 3-19 yn y Bala. Y cam nesaf i weithredu'r cynnig fyddai cyhoeddi rhybudd statudol i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn ar 31 Awst 2019, a sefydlu Campws Dysgu 3-19 cyfrwng Cymraeg, statws cymunedol, ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2019.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Bu i Cyng. Dilwyn Morgan ddatgan buddiant gan fod ŵyr yn mynychu un o'r ysgolion dalgylch y Bala.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Bu i ymgynghoriad statudol ei gynnal rhwng 22 Tachwedd 2017 a 10 Ionawr 2018 ac mae'r sylwadau i'w gweld yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Chwefror 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Chwefror 2018** |

**PWNC**

Eitem 7:CYNLLUN Y CYNGOR

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo Cynllun y Cyngor 2018-23 i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 1af o Fawrth 2018

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys y cynllun a'i fod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd wedi eu ahdnabod cyn ei argymell i'r Cyngor Llawn i'w fabwysiadu.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Chwefror 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Chwefror 2018** |

## PWNC

Eitem 8:CEFNOGI TEULUOEDD

## PENDERFYNIAD

Nodwyd a chefnogwyd bwriad y Prif Weithredwr ail strwythuro ychydig er mwyn rhoi mwy o ffocws ar y gwaith o gefnogi teuluoedd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae trafodaeth fewnol yn ystod y misoedd diwethaf am sut y byddai modd i'r Cyngor wneud mwy i helpu teuluoedd sydd angen cymorth. Ar hyn o bryd mae'r Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd wrthi'n datblygu strategaeth cefnogi teuluoedd er mwyn cynnig gwasanaethau cymorth a chefnogaeth i deuluoedd cyn i'w anghenion fynd yn fwy cymhleth,

Er mwyn sicrhau'r ffocws hwn, mae'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd a'r Pennaeth wedi dod i'r casgliad fod angen penodi Uwch Reolwr ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn benodol er mwyn canolbwyntio ar y Maes yma. Oherwydd y pwysau ariannol sydd ar y cyngor ar angen i ddarganfod arbedion sylweddol, nodwyd fod modd cyflawni'r angen mewn ffordd wahanol drwy drosglwyddo'r Uwch Reolwr Dysgu o'r Gwasanaeth Economi a Chymuned i'r Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd. Roedd y Prif Weithredwr am geisio barn y Cabinet ar ei fwriad i weithredu'r newid yma cyn symud ymlaen

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Chwefror 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Chwefror 2018** |

## PWNC

Eitem 9:GWASANAETH TELEDU CYLCH CYFYNG

## PENDERFYNIAD

i. Sefydlu darpariaeth Teledu Cylch Cyfyng ar sail cyfundrefn heb ofalwr
ii. Neilltuo £489,000 o gyfalaf o Gronfa Buddsoddi i Arbed y Cyngor ar gyfer cyflawni'r newid

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen dod i ganlyniad ar ddyfodol y gwasanaeth hwn, sydd angen buddsoddiad buan mewn technoleg ac offer newydd os am gael ei gynnal a chyfarch lleihad yn y gyllideb a chyfraniadau gan gyrff eraill ar gyfer ei gynnal.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Chwefror 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Chwefror 2018** |

## PWNC

Eitem 10:CYLLIDEB 2018/19 A STRATEGAETH ARIANNOL 2018/19-2020/21

## PENDERFYNIAD

Argymell i'r Cyngor (yn y cyfarfod ar 1 Mawrth 2018) y dylid:

i. Sefydlu cyllideb o £242,862,930 ar gyfer 2018/19, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £175,127,330 a £67,735,600 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda cynnydd o 4.8%.
ii. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £8.389m yn 2018/19 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.4 o'r adroddiad.

Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canol sy'n Rhan B, a mabwysiadu'r strategaeth sy'n rhan 32-34 o'r Cynllun.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen i'r Cyngor osod Cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 a pennu lefel Treth Cyngor. Y Cabinet sydd yn argymell y rhain i'r Cyngor Llawn benderfynu.

Mae'r strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd ac yn argymell cynnydd yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Wrth sicrhau arbedion, bwriedir eu cyflawni yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad